Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanfair Caereinion
# Mount Road
# Llanfair Caereinion
# Powys
# SY21 0HT

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/06/2013**

## Cyd-destun

Mae'r Cylch Meithrin wedi ei leoli yn Llanfair Caereinion - pentref sydd tua 10 milltir i'r gorllewin o'r Trallwng. Mae 23 o blant ar y gofrestr ac mae 13 ohonynt yn 3 oed. Mae pob plentyn 3 oed yn cael eu hariannu. Ar fore'r arolygiad (Dydd Mercher) roedd 13 o blant yn bresennol - 9 ohonynt yn blant 3 oed.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 18 o blant mewn unrhyw un sesiwn. Mae `r Cylch yn cyfarfod ar 5 bore yr wythnos o 9 y.b. tan 11:30 y.b. am 38 wythnos o`r flwyddyn.

Mae`r Cylch wedi`i hen sefydlu ac yn defnyddio adeilad sydd wedi`i hadnewyddu, sef yr hen ysgol gynradd. Y Cylch yn unig sy`n defnyddio`r adeilad sy'n cynnwys ystafell fawr, toiledau a chegin a adeiladwyd yn bwrpasol. Mae swyddfa fechan yn rhoi rhywfaint o breifatrwydd i`r Cylch pan fo angen hynny. Mae'r brif ystafell yn helaeth ac yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau chwarae ac adnoddau addysgol. Mae cyfleusterau digonol o ran storio a digon o fyrddau bach a chadeiriau ar gyfer yr holl blant. Mae digon o ardaloedd arddangos hefyd. Tu allan mae cyfleusterau chwarae gan gynnwys ardal storio ar gyfer teganau mawr a beiciau.

Mae`r plant yn mynychu'r Cylch pan fyddant yn 2 ½ oed ac yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Os gwneir cais gan rieni y gallant aros yn y Cylch am dymor pellach.

Daw`r plant o dref Llanfair Caereinion ac o'r pentrefi a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae'r rhan fwyaf o'r plant o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Fodd bynnag, daw nifer fach o gartrefi lle mae'r ddau riant neu un rhiant yn siarad Cymraeg.

Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu, ond gan nad oes llawer o Gymraeg gan nifer o`r plant, rhaid gwneud defnydd o`r Saesneg.

Dywed yr Cylch nad yw cefndiroedd plant yn arbennig o freintiedig nac o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r plant yn cynrychioli'r ystod lawn o allu a does dim un plentyn yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Nid oes un o'r plant wedi cael eu nodi ag anghenion addysgol arbennig. Mae`r Cylch wedi ei gynllunio yn dda i dderbyn plant ag anghenion o'r fath, gan gynnwys y rhai sydd ag anableddau corfforol.

Mae `r Cylch yn cael ei weinyddu gan bwyllgor rheoli sy'n cyfarfod yn dymhorol neu yn ôl yr angen. Roedd y Cylch wedi derbyn statws Cylch Ragorol yn 2012, ac fe`i arolygwyd yn fwyaf diweddar gan AGGCC yn 2012. Nid oedd unrhyw argymhellion pwysig. Cafodd y Cylch ei arolygu gan Estyn yn 2006 ac mae'r argymhellion wedi cael sylw.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr holl blant yn cyflawni`n dda ac yn gwneud cynnydd da;
- gan yr holl blant agweddau da tuag at ddysgu ac yn ymddwyn yn dda;
- yr holl blant yn derbyn gofal da a chefnogaeth dda;
- ansawdd yr addysgu`n dda;
- bod ethos da ac agweddau goddefgar;
- perthynas effeithiol gyda rhieni;
- y cyfleusterau`n dda yn nhermau`r adeilad.

### Rhagolygon gwella

Mae`r rhagolygon gwella`n dda oherwydd bod:

- staff yn gweithio`n dda gyda`i gilydd gydag agwedd gadarnhaol tuag at newid;
- cefnogaeth gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol;
- y staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol yn reolaidd;
- gweithdrefnau asesu a`u defnydd wrth gynllunio`r cwricwlwm yn dechrau bod yn effeithiol;
- y pwyllgor rheoli yn effeithiol ac yn wybodus am ddarpariaeth addysgol y lleoliad.

## Argymhellion

Mae angen i’r Cylch i:

A1 parhau i fireinio`r gweithdrefnau asesu er mwyn nodi cyflawniad plant yn nhermau`r medrau maent wedi eu caffael, yn enwedig mewn iaith a rhifedd.

A2 darparu gweithgareddau sydd wedi`u gwahaniaethu er mwyn cyfateb â gallu`r plant a`r camau nesaf yn eu dysgu.

A3 ymestyn yr ystod o weithgareddau sydd ar gael i`r plant er mwyn annog dysgu annibynol.

A4 llunio cynllun datblygu i restru sut y bydd yn mynd i`r afael â`r uchod.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y Cylch yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da yn yr holl feysydd dysgu. Mae'r plant yn gweithio'n ddiwyd ac yn meddwl am eu tasgau.

Mae gan yr holl blant fedrau cyfathrebu da gan fynegi eu hunain yn dda. Saesneg yw`r iaith maen nhw`n dewis ar gyfer cyfathrebu. Mae ganddynt fedrau gwrando da ac maent yn barod i dderbyn awgrymiadau. Maent yn fodlon i ddilyn cyfarwyddiadau. Mae'r holl blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau storïau. Mae llawer yn gallu adnabod cymeriadau mewn storïau maent wedi eu clywed. Mae`r rhan fwyaf o blant yn arbrofi â chreu marciau ac yn gwybod am rai o swyddogaethau ysgrifennu.

Mae pob plentyn yn dysgu sut i gyfrif - llawer y tu hwnt i 10, ac yn adnabod ac yn enwi siapiau cyffredin fel cylchoedd. Mae llawer o blant yn medru didoli a chyfateb siapiau, ac yn defnyddio iaith fathemategol, er enghraifft wrth chwarae gyda thywod.

Mae'r holl blant yn defnyddio offer digidol, fel ffonau symudol wrth chwarae, ac mae ganddynt fynediad at gyfrifiadur.

Mae pob plentyn yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau corfforol wrth chwarae y tu allan, i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd drwy deithiau cerdded natur ac i ddatblygu eu sgiliau creadigol drwy beintio.

Mae pob plentyn yn datblygu geirfa Cymraeg sylfaenol ac yn dechrau caffael graddfa dda o hyfedredd yn yr iaith o'i gymharu â'u man cychwyn. Maent yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol ac yn deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Maent yn ymateb i lais cyfarwydd sy`n gofyn cwestiynau, fel yn ystod cofrestru. Maent yn ailadrodd geiriau cyfarwydd ac yn mwynhau cymryd rhan mewn caneuon a rhigymau Cymraeg. Mae gan bob plentyn fedrau gwrando da ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau. Maent yn mwynhau storïau yn y Gymraeg fel "Tri mochyn bach" ac yn adnabod ac yn enwi cymeriadau yn y stori. Mae llawer o blant yn arbrofi â chreu marciau.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl blant agweddau cadarnhaol at ddysgu gan ddangos diddordeb clodwiw mewn gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Maent yn ymgymryd â thasgau yn hapus ac yn medru canolbwyntio am gyfnodau sylweddol o amser. Mae'r holl blant yn ymddwyn yn dda ac maent yn ystyriol ac yn barod i rannu. Mae'r holl blant yn uniaethu`n dda â'i gilydd ac oedolion.

Mae pob plentyn wedi caffael ymwybyddiaeth o hylendid personol. Maen nhw`n golchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac mae llawer yn gwneud hynny heb anogaeth. Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol da pan fydd plant yn sgwrsio'n hapus gyda'u ffrindiau.

Mae`r plant yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y Cylch a'u bod yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol neu eiriol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r holl staff yn cydweithio wrth gynllunio themâu ar gyfer y dyfodol ac mae'r arweinydd a'i chymhorthydd yn cyfarfod bob prynhawn dydd Gwener i gynllunio gweithgareddau'r wythnos ganlynol. Mae`r gweithgareddau yn llwyddo i ennyn diddordeb yr holl blant sy'n chwarae rhan weithredol am y rhan fwyaf o'r amser. Mae`r gweithgareddau wedi'u ffocysu'n dda i fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ac mae`r cwricwlwm yn llwyddo i integreiddio`r medrau, y wybodaeth a`r dealltwriaeth.

Fodd bynnag, mae diffyg amrywiaeth yn y cwricwlwm ac nid yw`r gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol ar gyfer pob plentyn gan nad oes digon o wahaniaethu ar gyfer gallu pob plentyn. Fodd bynnag, mae`r plant yn datblygu'r medrau angenrheidiol ar draws pob maes dysgu. Un agwedd arbennig o dda o`r profiadau dysgu yw`r berthynas dda a da iawn sy`n amlwg yn y Cylch. Mae pob plentyn yn oddefgar ac yn parchu ei gilydd. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael eu cynllunio`n dda i alluogi plant i fod yn hyderus ac i ddewis eu hoff weithgareddau. Mae digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol. Mae plant hefyd yn tyfu hadau a phlanhigion mewn borderi tu allan ac mae hyn yn eu helpu i ddeall bod angen gofalu am bethau byw.

Mae'r lleoliad yn un cyfrwng Cymraeg ac er bod plant yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg, mae llawer yn datblygu cymhwysedd digonol yn yr iaith gan eu galluogi i barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae`r cynllunio yn sicrhau bod yr iaith yn cael ei defnyddio gymaint ag y bo modd.

Mae'r holl staff yn siaradwyr Cymraeg ac felly mae`r plant yn clywed Cymraeg llafar yn naturiol. Mae'r traddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn rhan annatod o'r cwricwlwm.

Mae dealltwriaeth y plant o ailgylchu yn datblygu trwy ailgylchu papur a thyfu planhigion.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn brofiadol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plentyn. Mae gan y staff ddealltwriaeth drylwyr o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngwaith y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae`r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn dda. Maent yn defnyddio canmoliaeth yn briodol ac mae ystod dda o weithgareddau sy'n cadw`r plant yn brysur. Mae'r staff yn fodelau iaith da ac mae hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau siarad plant. Caiff ymarferwyr ychwanegol eu defnyddio yn effeithiol. Mae`r staff yn gweithio`n dda gyda'i gilydd ac yn gwybod beth yw eu rolau.

Asesir plant yn rheolaidd, gan gofnodi arsylwadau mewn ffeiliau unigol y plant. Mae hyn yn rhoi mesur da o gynnydd y plant. Mae canlyniadau asesu yn cael eu

defnyddio'n gynyddol i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae sylwadau asesu braidd yn gyffredinol ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar gaffael medrau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Ar hyn o bryd nid yw`r cofnodion asesu yn galluogi'r camau nesaf yn nysgu `r plant i gael eu nodi.

Mewn trafodaeth, soniwyd rhieni am y cynnydd a gwna'r plant yn y lleoliad, ond nid oeddent bob amser yn ymwybodol o'r hyn y gallent ei wneud i`w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer hybu iechyd a lles plant, yn ogystal â'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd. Mae`r plant yn gwahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir gyda phob un yn gweithredu yn unol â hynny. Mae pob plentyn yn hapus i gymryd cyfrifoldebau, fel yn ystod amser byrbryd, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o rannu gydag eraill. Mae'r holl blant yn gwybod beth yw`r rheolau ymddygiad ac yn gweithredu yn unol â hynny. Mae teithiau cerdded yn y coed cyfagos a phlanhigion sy'n tyfu yn helpu plant i ddeall rhyfeddodau natur ac ymdeimlad o chwilfrydedd am y byd. Mae gan blant ddigon o gyfleoedd i ddysgu am weithgareddau diwylliannol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

Mae trefniadau diogelu yn eu lle. Mae'r lleoliad wedi mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn a gofal plant a ddarperir gan Fudiad Meithrin. Mae'r holl staff wedi mynychu cyrsiau diweddar a pherthnasol ac maent yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus. Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer diogelu yn cwrdd â gofynion ac nid yw`n achos o bryder.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau priodol â gwasanaethau arbenigol ond nid oes unrhyw blentyn yn y blynyddoedd diwethaf sydd wedi ei gyfeirio at wasanaethau o'r fath. Nid yw`r lleoliad wedi gorfod mynd i'r afael yn ddiweddar â'r mater o anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, mae`r rhagofynion angenrheidiol ar gyfer delio gyda phlant sydd ag ADY yn eu lle.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad ethos cadarnhaol cryf sydd yn gwbl gynhwysol. Mae pob plentyn yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau a osodir ar eu cyfer ac yn mwynhau cwmni eu gilydd. Mae`r plant yn cael eu parchu fel unigolion ac yn cael eu cefnogi'n dda gan oedolion. Mae ganddynt hawl gyfartal at bob agwedd o`r cwricwlwm.

Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn annog agwedd oddefgar ac mae plant yn rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae'r lleoliad yn derbyn plant beth bynnag yw eu cefndir neu eu gallu, ac er nad oes plentyn ar hyn o bryd neu yn ddiweddar wedi cael ei gydnabod ag unrhyw fath o anabledd, mae'r lleoliad yn gallu darparu ar gyfer unrhyw blentyn o'r fath. Mae gweithdrefn gwyno ar waith ond heb ei defnyddio.

Caiff y lleoliad ei staffio`n hael gydag ymarferwyr cymwys a phrofiadol. Mae'r adnoddau yn ddigonol i fodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ond byddai plant yn elwa o ddetholiad ehangach o weithgareddau. Fodd bynnag, mae`r lleoliad ar y cyfan, yn dda ac yn addas ar gyfer plant o`r oedran hyn. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd a mannau chwarae y tu allan yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae`r plant yn elwa o ddefnyddio'r amgylchedd lleol a thrwy ymweliadau ag ardal siopa`r dref.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda – maen nhw`n deall eu rolau ac yn derbyn eu cyfrifoldebau yn llawn. Mae ymdeimlad o bwrpas yn amlwg yn y lleoliad sy'n canolbwyntio ar ddarparu darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer y plant. Mae`r staff yn rhannu gwerthoedd a nodau ac mae pawb yn cymryd rhan mewn cynllunio strategol.

Mae disgwyliadau uchel o'r plant ac mae'r rhain yn cael eu gwireddu yn ymarferol. Mae gan y lleoliad ethos da a gweithgareddau sydd wedi'u ffocysu'n dda ar anghenion plant. Mae`r trefniadau sefydlu yn dda a chaiff arfarnu ei ddefnyddio i nodi anghenion proffesiynol. Mae mynychu cyrsiau`r awdurdod lleol wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant.

Mae`r cysylltiadau â rhieni wedi'u sefydlu'n dda ac mae eu cefnogaeth yn allweddol i ddysgu`r plant.

Mae'r pwyllgor rheoli wedi`i sefydlu'n dda ac yn gwbl gefnogol o'r Cylch. Roedd trafodaeth gyda'r rheolwyr yn dangos eu dealltwriaeth dda o'u rolau a`u dealltwriaeth o berfformiad y lleoliad. Maent wedi cymryd ystyriaeth briodol o ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol. Mae'r rheolaeth yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.

Mae `r Cylch wedi bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys sefydlu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r lleoliad wedi cynhyrchu hunanarfarniad clir a chryno sy'n nodi cryfderau, gan gynnwys y dystiolaeth y mae wedi'i seilio arni a meysydd i'w gwella. Mae`r meysydd ar gyfer gwelliant yn canolbwyntio'n gadarn ar ddarparu enillion cadarnhaol ar gyfer y plant.

Mae'r rheolwyr wedi bod yn rhan o'r broses hunanarfarnu. Mae`r cynllunio ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar wella cyfleusterau ar gyfer y plant.

Mae ymarferwyr yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol a ddarperir fel arfer gan yr awdurdod lleol ac sydd wedi cael effaith dda ar gynnydd a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r lleoliad wedi sefydlu perthynas dda gyda rhieni sydd, yn eu tro, yn gefnogol iawn o `r Cylch.  Mewn trafodaeth, roedd sampl o rieni yn siarad yn frwd am y Cylch, ei staff a chynnydd da eu plant mewn dysgu a sgiliau cymdeithasol.  Mae yna deimlad o ymddiriedaeth sydd wedi'i sefydlu'n dda a chyfathrebu clir rhwng staff y Cylch a rhieni.  Mae rhieni bob amser yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau am eu plant.  Mae rhieni yn derbyn llythyrau newyddion rheolaidd, llyfryn defnyddiol sy`n llawn o wybodaeth, ac wedi derbyn holiadur yn gofyn eu barn am y Cylch.  Mae'r atebion yn gadarnhaol iawn.

Mae `r Cylch yn manteisio`n sylweddol o` r cyngor a chymorth y mae'n ei dderbyn gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol.  Mae ymweliadau rheolaidd gan yr athro ymgynghorol yn darparu `r Cylch â gwerthusiad o'r ddarpariaeth addysgol gan nodi`r ffordd ymlaen.  Mae cyngor o'r fath wedi cael derbyniad da ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar y lleoliad a gwaith y lleoliad.  Mae Mudiad Meithrin hefyd yn rhoi cymorth defnyddiol i`r Cylch.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cael eu defnyddio'n dda.  Caiff adnoddau eu defnyddio i gymell y plant ac maen nhw wedi'u ffocysu'n dda ar ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mewn rhai achosion mae`r adnoddau braidd yn brin, fel i ddarparu ysgogiad ar gyfer gwaith rhif a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd er enghraifft.  Mae anghenion adnoddau ar gyfer y  dyfodol wedi eu nodi, er mwyn cyfoethogi dysgu yn yr awyr agored.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ei gyllid yn dda ac yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Cafwyd 12 o ymatebion i holiaduron y rhieni.  Gofynnwyd i rieni ymateb i 16 o ddatganiadau, gan ddefnyddio un o'r pum maen prawf: "cytuno'n gryf, cytuno, anghytuno, anghytuno'n gryf neu ddim yn gwybod".

Doedd dim ymatebion "anghytuno, anghytuno'n gryf, neu ddim yn gwybod".

I grynhoi, roedd 75% o'r ymatebwyr yn "cytuno'n gryf" â'r datganiadau canlynol:

*Rwy'n fodlon â'r lleoliad at ei gilydd.*
*Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn.*
*Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.*
*Mae`r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.*
*Mae'r addysgu yn dda.*
*Mae'r ymarferwyr yn trin pob plentyn ac yn dangos parch tuag atynt.*
*Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.*
*Rwy'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.*
*Mae ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.*
*Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.*

Roedd hanner yr ymatebwyr eraill yn "cytuno'n gryf" â'r datganiadau canlynol:

*Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.*
*Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.*
*Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn.*
*Rwy`n deall gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer delio â chwynion.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.*

Roedd pob ymatebydd wedi "cytuno neu'n cytuno'n gryf" â'r holl ddatganiadau.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Roedd yr holl blant yn awyddus i ddod i mewn i'r Cylch gan gymryd rhan weithredol yn fuan.  Dywedodd y plant eu bod yn mwynhau chwarae, yn enwedig y tu allan a gwrando ar storïau.

## Atodiad 2

### Yr  arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |